

## Apeliadau yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y Cynllun Cymorth Ariannol

Os nad ydych yn fodlon â phenderfyniad a wnaed gan y Cynllun Cymorth Ariannol (CCA), mae help ar gael i ddatrys y mater.

Yn gyntaf, rhaid i chi roi'r cyfle iddynt geisio cywiro pethau. Ond os ydych wedi gwneud hynny, ac nid ydych yn fodlon ar y canlyniad o hyd, gallwch ofyn i ni edrych i mewn i'r mater.

Rydym yn sefydliad annibynnol, wedi'i sefydlu gan gyfraith, i ymchwilio i faterion pensiwn. Byddwn yn edrych ar y ffeithiau, heb ochri â neb. Ac mae gennym bwerau cyfreithiol i wneud penderfyniadau sy'n derfynol, yn rhwymol ac y gellid eu gorfodi yn y llys. Mae ein gwasanaeth ar gael yn rhad ac am ddim.

Yn y daflen ffeithiau hon ceir gwybodaeth am ein rôl a'r hyn rydym yn ei wneud. Mae hefyd yn cynnwys manylion ar:

- Sut gallwn ni helpu
- Beth sydd angen i chi ei wneud
- Beth wnawn ni
- Sefydliadau eraill fyddai'n gallu helpu
- Adborth a chwynion amdanom ni

### Sut gallwn ni helpu

Gallwn edrych ar benderfyniadau a wnaed gan Reolwr Cynllun y CCA. Gelwir y rhain yn apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r CCA.

Cyn y gallwch ofyn i ni edrych i mewn i'r mater, rhaid i chi ofyn i'r CCA adolygu eu penderfyniad. Os oes angen help arnoch i wneud hyn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori Pensiynau. Os ydych wedi gofyn i'r CCA adolygu eu penderfyniad, ac nad ydych yn fodlon ar y canlyniad o hyd, gallwch ofyn i ni ymchwilio i'r mater.

## **Gallwch ofyn i ni edrych ar broblem os:**

ydych chi wedi derbyn copi o benderfyniad a wnaed gan Reolwr Cynllun y CCA ac nad ydych yn fodlon ar y canlyniad. Gallwn dderbyn cais oddi wrth unrhyw un sydd â phenderfyniad gan Reolwr Cynllun y CCA.

## **Beth allwn ni edrych arno**

Gallwn edrych ar benderfyniadau'r CCA am gynllun pensiwn neu am rywbeth sy'n effeithio ar aelod unigol o gynllun.

### **Penderfyniadau'r CCA am gynlluniau pensiwn**

Yn gyffredinol gallwn edrych ar:

- benderfyniadau hysbysiad cynllun - a yw manylion perthnasol y cynllun pensiwn wedi'u rhoi i'r CCA o fewn y raddfa amser ofynnol ai peidio.
- penderfyniadau cymhwyster cynllun - a yw cynllun pensiwn yn gynllun pensiwn cymwys o dan y CCA ai peidio.

### **Penderfyniadau'r CCA am unigolion**

Yn gyffredinol gallwn edrych ar:

- a yw unigolyn yn gymwys - a yw rhywun yn aelod cymwys o dan y CCA
- asesiad unigolyn - taliadau y gall fod / y mae gan rywun hawl i'w derbyn o dan y CCA

Ni allwn edrych ar gwynion cyffredinol am y CCA - er enghraifft oedi wrth wneud penderfyniad. Yr Archwilydd Achosion Annibynnol fydd yn ymdrin â'r rhain (gweler tudalen 4 am fanylion cyswllt).

## **Beth sydd angen i chi ei wneud**

Rhaid i chi gyflwyno apêl ddim mwy na 2 fis ar ôl i Reolwr Cynllun y CCA anfon penderfyniad am eich apêl.

### **Cyflwyno'ch apêl i ni**

Rhaid i chi anfon ffurflen gais atom ynghyd ag unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i'ch apêl.

Efallai na allwn, trwy gyfraith, dderbyn eich cais os na fyddwch wedi:

- darparu'r holl wybodaeth berthnasol a ofynnwyd amdani yn y ffurflen gais
- cynnwys copi o benderfyniad terfynol y CCA am eich apêl
- cynnwys unrhyw ddogfennau eraill sy'n berthnasol i'ch cais.

Gallwch benodi rhywun (cynrychiolydd) i'ch helpu gyda'ch cais.

## Beth wnawn ni

Yn gyntaf, byddwn yn penderfynu a yw eich cais yn rhywbeth y gallwn ni ymdrin ag ef ai peidio (gweler tudalennau 1 a 2). Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gennych chi neu o rywle arall i allu gwneud hyn.

Fel arfer mae'n cymryd saith wythnos i ni benderfynu a allwn ni ymdrin â'ch cais ai peidio, ac os na allwn ni, byddwn yn esbonio pam.

Os yw eich cais yn rhywbeth y gallwn ni ymdrin ag ef, byddwn yn penodi ymchwiliwr. Yr ymchwiliwr hwn fydd eich prif bwynt cyswllt.

Efallai y bydd ymchwiliwr, Rheolwr Cynllun y CCA, neu unrhyw un arall y byddwn ni'n tybio y gallant eich helpu, yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth. Bydd unrhyw wybodaeth a ddarparwch chi yn cael ei dangos i Reolwr Cynllun y CCA a bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddyn nhw'n cael ei dangos i chi.

Os ydych yn apelio yn erbyn hysbysiadau cynllun neu benderfyniad am gymhwyster cynllun a bod ceisiadau eraill tebyg i'ch un chi, efallai y byddwn yn penderfynu edrych arnynt gyda'i gilydd. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Fe gewch chi, Rheolwr Cynllun y CCA, ac unrhyw barti arall yn yr achos y cyfle i wrthwynebu.

## Unigolion â buddiant

Os yw'ch apêl yn ymwneud â phenderfyniad am hysbysiad cynllun neu gymhwyster cynllun, rhaid i ni hysbysu unrhyw 'unigolion â buddiant' am yr apêl. Yn fras, gallai hyn fod yn unrhyw un sy'n cael ei effeithio, neu y gellid effeithio arno, gan ganlyniad eich achos. Fel arfer, byddwn yn gwneud hyn trwy gyhoeddi manylion eich achos ar ein gwefan. Bydd yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'ch achos ar gael i unrhyw unigolyn â buddiant.

Gall unigolion â buddiant wneud cais hefyd i ddod yn barti yn yr achos. Pe byddwn yn derbyn eu cais, bydd ganddynt yr un hawliau a chyfrifoldebau â chi - mae hyn yn cynnwys gwneud datganiadau i ni a gofyn am wrandawriad llafar.

## Gwrandawriadau llafar

Gall unrhyw barti i'r achos ofyn i ni gynnal gwrandawriad llafar - er ein penderfyniad ni fydd hynny, ac efallai y byddwn yn cynnal gwrandawriad llafar hyd yn oed os na ofynnwyd i ni wneud hynny. Er enghraifft, efallai ein bod yn penderfynu, neu'n cytuno, i gynnal gwrandawriad pe byddai gwrthdaro sylweddol yn y dystiolaeth fel na ellid penderfynu arno ar sail y papurau'n unig, neu ein bod yn meddwl bod parti wedi bod yn anonest. Os ydych yn credu y dylem gynnal gwrandawriad llafar yn eich achos chi, dylech ysgrifennu atom yn esbonio pam.

## Gwneud penderfyniad ar eich achos

Gellir datrys rhai ceisiadau mewn ychydig o fisoedd yn unig; gall eraill gymryd llawer iawn mwy yn dibynnu ar nifer y bobl y bydd rhaid cysylltu â nhw neu gymhlethdod yr achos. Ar ein gwefan, cewch ragor o wybodaeth am yr hyn y dylech ei ddisgwyl os ydym yn gallu ymchwilio i'ch achos.

Pan fydd gennym ddigon o wybodaeth, efallai y byddwn yn anfon barn ymchwiliwr yr achos at bob parti. Caiff pob parti'r cyfle i wneud sylwadau ac os bydd unrhyw barti yn anghytuno, gallant ofyn i'r Ombwdsmon adolygu papurau'r achos a gwneud penderfyniad terfynol sy'n rhwymol. Hwn fydd y penderfyniad.

Fel arall, bydd yr Ombwdsmon yn gwneud penderfyniad rhagarweiniol ac yn gwahodd pob parti i wneud sylwadau arno. Yna, bydd yr Ombwdsmon yn adolygu unrhyw sylwadau, ac os bydd angen, yn gofyn am fwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad terfynol.

## Ar ôl gwneud penderfyniad

Os bydd Ombwdsmon yn gwneud penderfyniad o'ch plaid chi, bydd fel arfer yn cynnwys cyfarwyddiadau i Reolwr Cynllun y CCA ar gyfer cywiro pethau.

Mae'n bosib gorfodi penderfyniad yr Ombwdsmon yn y llysoedd (oni bai fod apêl lwyddiannus ar fater o gyfraith) ac mae'n rhwymol arnoch chi, ar Reolwr Cynllun y CCA, ac (os yn berthnasol) ar ymddiriedolwyr neu reolwyr ac unrhyw unigolyn â buddiant.

**Oni bai fod amgylchiadau arbennig, byddwn yn cyhoeddi pob penderfyniad ar ein gwefan.**

Am ragor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd a gwybodaeth bersonol, ewch i: [www.pensions-ombudsman.org.uk](http://www.pensions-ombudsman.org.uk)

## Sefydliadau eraill fyddai'n gallu helpu

### Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Am gymorth a chynghor wrth i chi ofyn i'r CCA adolygu penderfyniad.

120 Holborn  
Llundain EC1N 2TD  
Ffôn: 0800 011 3797

<https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy>

## **Archwilydd Achosion Annibynnol**

Am gwynion cyffredinol ar y CCA.

Archwilydd Achosion Annibynnol

PO Box 209

Bootle

L20 7WA

Ffôn: 0800 414 8529

<http://www.gov.uk/government/organisations/independent-case-examiner>

## **Adborth a chwynion amdanom ni**

Os oes gennych chi adborth ar sut gallwn wella ein gwasanaeth neu os ydych yn meddwl bod rhywbeth wedi mynd o'i le, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Dylech gychwyn trwy gysylltu â'r person sy'n ymdrin â'ch achos. Os nad ydych yn gallu datrys y mater, cysylltwch â'u rheolwr llinell a gofyn iddynt edrych i mewn i'r mater.

Gan obeithio na fydd hyn yn digwydd, ond os nad ydych yn hapus ag ymateb y rheolwr llinell (heblaw am gŵyn yn mynegi y dylai canlyniad eich achos fod wedi bod yn wahanol), gallwch ysgrifennu at:

Y Ombwdsmon Pensiynau / The Pensions Ombudsman

10 South Colonnade

Canary Wharf

Llundain E14 4PU

**Mae'r daflen hon yn ganllaw syml i'n swyddogaeth a'n ffordd o weithio. Nid yw'n ddisgrifiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli ein gwaith.**

**Mai 2020**